

CYPE(6)-18-22 - Papur i'w nodi 13

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

30 Medi 2022

Jayne Bryant MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Annwyl Gadeirydd

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Cyllideb Ddrafft Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 2022-23:

Argymhelliad 24. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bob chwe mis ar hynt gweithredu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r rhaglen i ddysgwyr Addysg Bellach.

Dros y chwe mis diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gweithredu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, sef rhaglen a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan International Learning Exchange Programme (ILEP) Ltd, is-gwmni i Brifysgol Caerdydd, fel Gweithredwr y Rhaglen.

Ar ôl lansio o dan ei enw newydd, 'Taith', ym mis Chwefror, penodwyd Susana Galvan yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithredwr y Rhaglen ac mae wedi llwyddo i arwain y tîm trwy alwad gyntaf Llwybr 1. Llwybr 1 sy'n darparu'r rhan fwyaf o weithgarwch Taith, ac mae'n canolbwyntio ar alluogi dysgwyr, ymchwilwyr a staff i deithio. Mae'r prosiectau'n amrywio o 1 i 2 flynedd ar gyfer pob sector, ar wahân i'r sector Addysg Uwch sydd â phrosiectau 3 blynedd yn bennaf.

Cafodd yr alwad ei lansio ym mis Mawrth ac roedd ar agor ar gyfer ceisiadau tan fis Mai. Fel rhan fwyaf y rhaglen o ran cyllid, roedd yn galonogol iawn gweld diddordeb cryf yn Llwybr 1 o bob sector. Ar ôl asesu ceisiadau gan aseswyr allanol ac adolygiad gan Bwyllgor Cyllido Taith, fe wnaeth Bwrdd Cyfarwyddwyr ILEP Ltd gwrdd i ystyried yr argymhellion, ac erbyn diwedd mis Gorffennaf roedd pob ymgeisydd llwyddiannus wedi cael gwybod am y canlyniadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tabl 1. Gwerth y prosiectau a ddyfarnwyd, yn ôl y sector

	Nifer y ceisiadau	Nifer y prosiectau a ddyfarnwyd	Cyfanswm a ddyfarnwyd (£)
Ysgolion	22	15	2,140,041
Addysg bellach/Addysg a hyfforddiant galwedigaethol	4	4	1,011,759
Ieuenctid	20	13	1,197,695
Addysg Oedolion	10	6	146,622
Addysg Uwch (Addysg)	8	8	4,139,100
Addysg Uwch (Ymchwil)	6	6	1,417,500

Tabl 2. Amcan o'r niferoedd a fydd yn manteisio ar Lwybr 1, yn ôl y sector

	Ieuenctid	Ysgolion	Addysg bellach/ Addysg a hyfforddiant galw-edigaethol	Addysg Oedolion	Addysg Uwch - Addysg	Addysg Uwch - Ymchwil
Mynd dramor	458	1,465	526	75	1,662	465
Dod o dramor	97	395	141	20	289	105
Cyfanswm	555	1,860	667	95	1,951	570

O.N. Mae'r niferoedd hyn yn debygol o newid wrth i'r prosiectau fynd yn eu blaen.


Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli cyfanswm o 52 o geisiadau llwyddiannus, gan gynnwys 6 cais gan gonsortia sy'n cynnwys 101 o sefydliadau o'r sectorau Ieuenctid, Ysgolion, ac Addysg bellach/ addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mae'r gwledydd partner dangosol a bennwyd ar hyn o bryd yn eang ac yn ymestyn ar draws Asia, Affrica, Gogledd a De America, Ewrop ac Awstralia.

Bydd Llwybr 2 (Partneriaeth a Chydweithio Strategol), a fydd yn cefnogi prosiectau â thema fwy strategol, yn lansio ar 5 Hydref 2022 ac yn darparu mwy o gyfleoedd cyllid a chyfleoedd teithio i ddysgwyr a staff.

Mae gan Taith dîm rhaglen cryf y tu ôl iddo sy'n gyfrifol am redeg y rhaglen o ddydd i ddydd. Mae rheolwr dynodedig ar gyfer Addysg Bellach, Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, ac Addysg Oedolion, a'i rôl yw arwain ar ymgysylltu â rhaglenni ar draws y tri sector.

Yn ogystal â thîm y rhaglen, mae Taith yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Cynghori sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu goruchwyliaeth o bob rhan o'r sector addysg. Cyhoeddir cofnodion y Bwrdd Cynghori yma [Bwrdd Cynghori - Taith](#). Yn bwysig iawn, cynrychiolir pob sector ar y Bwrdd, gan gynnwys cynrychiolaeth Addysg Bellach gan Colegau Cymru. Bu adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys ar y Bwrdd Cynghori, yn rhan hanfodol o ddatblygiad Llwybr 2. Bydd tîm Taith yn cefnogi'r buddiolwyr cymwys drwy gynnal sesiynau galw heibio a gweminarau dros y cyfnod ymgeisio.

Yr eiddoch yn gywir,



Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg